

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer****Mawrth 4ydd, 2019**

**Presennol:** Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cynghorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriad Eleri Jones.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Derbyniwyd datganiadau o fuddiant ym mater 7d (Cyfraniadau blynyddol) gan Emyr Jones a W D Williams.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 14/1/19.
5. Materion yn codi o gyfarfod Ionawr: Diolchwyd i Alun Davies Tŷ Du am drwsio'r golau yn y ciosg lle cedwir di-ffib Llangywer. Bydd yr hysbysfwrdd yn cael ei osod pan fydd y tywydd yn ffafriol.
6. Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a ddywedodd nad oedd hyd yn hyn wedi derbyn rhestr o leoliad y biniau halen yn y gymuned. Dywedodd fod y gwaithocio'r clawdd ar y ffordd wrth y Fach Ddeiliog wedi ei wneud. Mae pont Llangywer wedi ei thrwsio. Bydd cyllid trwsio pont Rhosygwaliau yn dod o'r flwyddyn ariannol nesaf, ac ni fydd yn bosib tynnu'r eiddew tan ar ôl tymor yr adar bach yn nythu. Gan fod y Cynghorwyr o'r farn fod y sefyllfa wedi gwaethygu, cytunodd Alan Jones Evans i ofyn i'r swyddog ail-ymweld. Mae Dylan Wyn Jones wedi ymweld â Llangywer i asesu ffyrdd o arafu trafndiaeth. Mae gobaith y bydd y newidiadau newydd sydd yn yr arfaeth yn gwella'r drefn ailgylchu'n lleol. Diolchwyd yn fawr iawn i Alan Jones Evans am ei adroddiad a'i waith.
7. **Materion ariannol:**
  - a. Derbyniwyd Cofnodion Is Bwyllgor Cyllid Ionawr 14, 2019.
  - b. Derbyniad gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.
  - c. Cytunwyd i dalu tâl aelodaeth Un Llais Cymru a'r cyfraniad blynyddol at Bartneriaeth Penllyn .
  - d. Cytunwyd i roi'r cyfraniadau ariannol fel a ganlyn:

i. Neuadd Llangywer	£650
ii. Eisteddfod Gylch yr Urdd	£100
iii. Canolfan y Plase	£50
iv. CFFI Ffederasiwn Meirionnydd	£125
v. Cwmni Theatr bara Caws	£25
vi. Eisteddfod Genedlaethol	£50

**8. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned**

Cytunwyd i gofnodi gwerthfawrogiad y Cyngor o ofal Mrs Linda Morris o'r Neuadd a'i chymwynasgarwch yn paratoi'r Neuadd tuag at gyfarfodydd y Cyngor a gweithgareddau eraill yn y Neuadd.

Cytunwyd i anfon cyfarchion y Cyngor at gyn aelod ffyddlon o'r Cyngor, sef Mr Jac Morris, Pantmarch gynt.

Arwyddwyd..... (Cadeirydd) .....(Clerc)

Addawodd y Cynghorydd Sir i dynnu sylw swyddogion at ganghennau ar draws y ffordd mewn gwahanol rannau o'r Gymuned.

9. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniad adroddiad y cynrychiolwyr fod y cais am grant bron wedi ei gwblhau. Dywedwyd fod prysurdeb mawr yn ystafelloedd cyhoeddus yr Henblas a phob swyddfa yn llawn. Adroddodd y Clerc iddi fynychu digwyddiad ar 22/2/19 wedi ei drefnu gan Angharad ab Iorwerth. Roedd yn gyfarfod llwyddiannus o nifer fawr o asiantaethau a bu sawl deilliant positif o'r cyfarfod er lles pobl ardal Penllyn.

10. **Gohebiaeth:**

**Parc Cenedlaethol Eryri:**

- a. Nodwyd derbyn gwybodaeth am fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031
- b. Cymeradwywyd cais NP5/70/114F sef newid defnydd adeilad amaethyddol i leoliad priodas tymhorol a gosod tanc septig yn Llechwedd Ystrad.

**Arolygon:** Nodwyd yr arolygol cyfredol sydd ar lein:

- i. Pŵer Solar cymunedol Cymreig [rosie@awel.coop](mailto:rosie@awel.coop) [<mailto:rosie@awel.coop>](mailto:rosie@awel.coop) www.egni.coop
- ii. Adolygiad Cludiant Cyhoeddus <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau-byw/Arolwg-Bysiau-Lleol-gwynedd-2019.aspx>
- iii. Arolwg gwasanaeth "tu allan i oriau" Meddygon Teulu <http://svy.at/hxqnn>
- iv. Cytunwyd i gefnogi cais Partneriaeth Penllyn i wneud cais am arian sydd ar gael yn 2019-20, ar gyfer sefydlu cyd-drefniadau ar gyfer pedair thema craidd, sef **ymgysylltu â'r gymuned, cynyddu cyfranogiad dinasyddion ac ymgysylltu â democratiaeth leol, a gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau** .

**Eraill:**

- i. Triathlon: derbyniwyd neges gan y Trefnydd yn gofyn am gynrychiolwyr o'r Cyngor i fynychu cyfarfod yn Nolgellau yn ystod y dydd ar 25/3/19. Nodwyd siom fod achlysur sy'n digwydd yn Y Bala yn cael ei drafod yn Nolgellau. Cytunodd Alan Jones Evans i ofyn am ail-leoli'r cyfarfod. Mynegwyd ei bod yn amser prysur i amaethwyr ac nad ydyw mynychu cyfarfod yn ystod y dydd yn gyfleus i'r sawl sydd mewn gwaith.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am gymorth gyda ffôn, iPad, cyfrifiadur sydd yn cael ei drefnu yn yr Henblas bob dydd Mercher ym mis Mawrth.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 13/5/19

Arwyddwyd..... (Cadeirydd) .....(Clerc)